**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynghylch recriwtio i swydd Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn cydnabod yn llawn fod ymddeoliad ei Brif Weithredwr newydd Sian Tomos ar sail afiechyd wedi gadael y sefydliad mewn sefyllfa anodd. Mae hyn yn cael ei ddwysáu gan y ffaith bod ei swydd flaenorol fel Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau yn dal yn wag.

O ran cyngor recriwtio masnachol, cefnogwyd CCC yn y broses recriwtio wreiddiol y gwanwyn diwethaf gan AEM International, y mae ei gontract gydag CCC hefyd yn ymrwymo'r cwmni i'w cefnogi yn y cylch recriwtio nesaf ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol parhaol. Yn dilyn trafodaethau hir am yr amserlenni i recriwtio Prif Swyddog Gweithredol newydd ac unrhyw gyfnodau rhybudd dilynol, mae Cyngor CCC wedi penderfynu recriwtio Prif Weithredwr Dros Dro yn y cyfamser. Mae CCC wedi cysylltu â nifer o unigolion cymwys ac mae trafodaethau'n parhau. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu dyddiad cau ar gyfer y broses recriwtio hon ond mae'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos, gan gyfarfod yn rheolaidd â'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro.

Mae eich llythyr yn sôn am bwysigrwydd datblygu gwaith rhyngwladol, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit a'i ganlyniadau. Mae'r tîm profiadol iawn yn Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi rhoi arweiniad ar ddatblygu cysylltiadau a phrotocolau Ewropeaidd ar draws y pedwar Cyngor Celfyddydau yn y DU. Maent yn parhau i feithrin cysylltiadau rhagorol, gan alluogi artistiaid i weithio gyda phartneriaid yn Iwerddon a Chanada, ac maent yn gwneud gwaith pwysig ar ymateb i'r her garbon ac ar ddod â manteision cydweithio rhyngwladol yn ôl i gymunedau amrywiol ledled Cymru. Ym mhob un o'i weithgareddau, nod CCC yw cyd-fynd ag amcanion Strategaeth Ryngwladol a Chenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Mae CCC wedi rhoi cymorth sylweddol i'r sector celfyddydau o ran angen ar frys a achosir gan y pandemig. Mae ei dimau Cyllid wedi cynnig cymorth amserol drwy gydol y pandemig,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sydd wedi cael ei ganmol a'i werthfawrogi'n eang ar draws y sector. Mae CCC a Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos i ystyried a allai fod angen unrhyw gymorth ariannol ychwanegol, ac i sicrhau bod capasiti ar gael i gefnogi'r sector yn ôl yr angen.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip